# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via WebEx, Dydd Mawrth, 13 Hydref 2020 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd (HV-E), Rheolwraig Tîm Cynllunio Strategol (NK), Cydlynydd Craffu (RE), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Martyn Holland, David Williams a/ac Huw Williams

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Oherwydd yr ymateb i'r coronafeirws, pasiodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth frys i alluogi cynghorau i ohirio'r cyfarfod blynyddol. Er mwyn cydnabod yr anawsterau a achoswyd gan gyfarfodydd o bell, roedd y ddeddfwriaeth frys hefyd yn caniatáu i Gynghorau ymestyn cyfnod dal swyddi tan fis Mai 2021 os dymunir.

CYNIGWYD gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler ac EILIWYD gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill.

Cymerwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i ymestyn deiliadaeth swydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor hyd fis Mai 2021.

***PENDERFYNWYD** ymestyn deiliadaeth swydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor hyd fis Mai 2021.*

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim eitemau brys.

Cwestiwn gan y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor:

Sut mae'r Awdurdod Lleol yn ymateb i'r wybodaeth ddiweddaraf a dderbynnir bob dydd ynglŷn â COVID gan y Tîm Arwain Strategol?

Ymatebodd y Prif Weithredwr – Rydym yn derbyn adroddiadau dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ôl ardal a chyfraddau heintio a chanran canlyniadau cadarnhaol profion. Cesglir gwybodaeth hefyd drwy'r tîm olrhain cysylltiadau ac olrhain y cysylltiadau rheiny. Y broblem yw fod y data yn hynod sensitif ac wedi dod gan swyddogion gwarchod y cyhoedd ac Iechyd y Cyhoedd, ac maen nhw'n edrych ar unrhyw lefydd gyda chyfraddau uchel a pha gamau y dylid eu cymryd.
Rydym hefyd yn defnyddio mapiau crynhoad Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Byddwn yn rhoi gwybod i aelodau ynglŷn ag unrhyw glystyrau.

Cynghorydd Mabon ap Gwynfor – fyddwch chi'n ystyried rhyddhau unrhyw ffigurau yn lleol i ni fesul Ward? Mae llai o bobl bellach yn cadw at y rheolau gan nad ydynt yn gweld rhesymeg yn y rheolau. Faint o ran oedd gan yr Awdurdod Lleol yn y clo sirol? Dyna pam mae tryloywder yn allweddol.

Prif Weithredwr – nid oes ardaloedd lleol â chyfraddau uchel ac mae'r achosion mewn ysgolion yn dangos hynny. Bydd yn sicr o gymorth cael mapiau crynhoad i'w rhannu.

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2020.

### Materion sy'n Codi -

Tudalen 13 – Eitem 7 Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/2021 a Dangosyddion Darbodus 2020/2021 - 2022/2023 – gofynnodd y Cynghorydd Paul Penlington am restrau o'r banciau cysylltiedig.

CYNIGIODD y Cynghorydd Alan James dderbyn y cofnodion, EILWYD gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

Pleidleisiwyd a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn y cofnodion.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.*

## 6 TACLO NEWID HINSAWDD AC ECOLEGOL MEWN GWNEUD PENDERFYNIAD Y CYNGOR

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, adroddiad ar Fynd i'r Afael â Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Wrth Wneud Penderfyniadau.

Mae’r adroddiad yn amlinellu’r diwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor a’r a’r prosesau a’r dogfennau ategol, ynghyd â llinell amser ar gyfer gwneud y newidiadau hynny os caent eu cymeradwyo gan y Cyngor, gan gynnwys cynnal Hyfforddiant Llythrennedd Carbon.

Roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio wedi ystyried y cynigion hyn ar 9 Medi 2020 a chytuno’n unfrydol y dylid cyflwyno'r argymhellion i’r Cyngor eu cymeradwyo.

Yn dilyn ymgynghori gyda’r Swyddog Monitro, cynigir newid Adran 13.2 o’r Cyfansoddiad - Egwyddorion Gwneud Penderfyniadau. Cynigir ychwanegu pwynt bwled canlynol dan *“Bydd holl benderfyniadau'r Cyngor yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol"*: *“gan ystyried trechu newid hinsawdd ac ecolegol”.* Mae manylion llawn y newid ar gael yn Atodiad C.

Roedd nifer o aelodau wedi dweud y dylai’r Adran Gynllunio ystyried newid hinsawdd a newid ecolegol wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Eglurodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad yn cyfeirio at gynnwys “ystyried” yn y cyfansoddiad ond y gall y gyfraith ddiystyru hwnnw. Nid oes unrhyw wybodaeth wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru o ran canllawiau cynllunio cenedlaethol.

Roedd yr aelodau yn croesawu’r adroddiad gan ddiolch i Helen Vaughan-Evans, Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd, a’i thîm am eu holl waith hyd yma ar y mater.

Hefyd, diolchodd y Prif Weithredwr i’r staff sydd wedi gweithio ar y prosiect. Dywedwyd wrth yr aelodau, os caiff yr adroddiad ei gymeradwy, mai Cyngor Sir Ddinbych fyddai’r Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i wneud hyn.

Cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd y bydd yn mynd i gyfarfod Grŵp CDLl.

Dywedodd yr Arweinydd nad yw’r adroddiad yn rhoi sylw i bartneriaid gwaith a bod cryn dipyn o waith i’w wneud eto.

CYNIGIODD y Cynghorydd Brian Mellor y dylid cymeradwyo’r adroddiad ac EILIWYD hynny gan y Cynghorydd Brian Blakeley.

Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo’r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai’r Cyngor yn:*

(a) Cymeradwyo i newid Adran 13.2 Cyfansoddiad y Cyngor - Egwyddorion Gwneud Penderfyniadau i gynnwys pwynt bwled ychwanegol dan *“Bydd holl benderfyniadau'r Cyngor yn cael eu gwneud yn unol â'r egwyddorion canlynol"* sef: *“gan ystyried trechu newid hinsawdd ac ecolegol”.*

(b) Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o’r Effaith ar Les (Atodiad A o’r adroddiad) fel rhan o’i ystyriaethau.

## 7 ADOLYGU PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019 I 2020

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr Adroddiad Adolygu Perfformiad Blynyddol 2019 i 2020 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'w gymeradwyo yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref bob blwyddyn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Yn 2019, cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Gorffennaf ac roedd yn cynnwys ein diweddariad chwarter 4 ar y Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan Covid-19, cafwyd oedi gyda'r adroddiad hwn, felly mae bellach yn cynnwys chwarter 1 lle mae'r wybodaeth ar gael, ac yn ceisio dangos yn benodol sut mae'r cyngor wedi cynnal gwasanaethau allweddol, a mwy, er budd ein trigolion yn ystod y pandemig.

Roedd yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol hefyd yn cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o gynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau corfforaethol o bortffolio ehangach y Cyngor. Roedd hyn yn cydnabod bod gwasanaethau yn gwneud gwaith pwysig y tu allan i'r Cynllun Corfforaethol sydd o fudd i drigolion.

Eglurodd y Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol, er gwaethaf Covid-19, parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd da gyda'i flaenoriaethau gan nodi'r hyblygrwydd sylweddol yn y modd roedd prosiectau a gwasanaethau wedi addasu i newid. Bu ychydig o oedi gyda rhai amserlenni, ond ar y cyfan, roedd prosiectau ar y trywydd iawn i gyflawni manteision i gymunedau.

Arweiniodd y Cyngor drwy'r adroddiad a darparu gwybodaeth fanwl am y cynnydd a wnaed yn erbyn pob blaenoriaeth gorfforaethol.

Roedd y pum blaenoriaeth fel a ganlyn:

- Tai – Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion;
- Clymu Cymunedau - Mae cymunedau wedi'u cysylltu ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da;
- Cymunedau gwydn - mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid;
- Amgylchedd - mae'r amgylchedd yn ddeniadol ac wedi ei warchod, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd; a
- Pobl ifanc - man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

Wrth drafod, codwyd y materion canlynol:

- Isadeiledd Digidol a phroblemau mynediad i 4G – Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod problemau cysylltedd yn bodoli mewn rhai ardaloedd gwledig. Bydd Bargen Dwf Gogledd Cymru yn edrych ar gysylltiad digidol. Roedd Swyddog Digidol Sir Ddinbych wedi gweithio gyda chymunedau i roi cymaint o wybodaeth â phosibl iddynt. Roedd cysylltiad digidol yn rhan o flaenoriaethau'r Cyngor.

- Trafodion ar-lein – o ran y preswylwyr nad oedd â mynediad at gyfleusterau ar-lein, yn enwedig pobl ddiamddiffyn a’r henoed, roedd llyfrgelloedd a siopau un alwad a chanolfannau galw wedi gallu cynorthwyo’r preswylwyr hynny.
- Ffyrdd – Roedd Covid wedi cael effaith sylweddol ar grynodeb y sir o waith atgyweirio. Roedd gwaith wedi gallu ailddechrau ar atgyweirio ac roedd meysydd yn cael eu blaenoriaethu.
- Cadarnhawyd y penodwyd Swyddog Rhostiroedd ers tân Llantysilio ac maent yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a pherchnogion tir.
- Gofal preswyl - codwyd cwestiynau am ba mor hir roedd preswylwyr mewn cartrefi preswyl, ac a fu yna gynnydd mewn marwolaethau yn sgil Covid. Cadarnhawyd bod gofal preswyl wedi cael ei fonitro ac roedd gwybodaeth ar gael ynghylch pam fod preswylwyr wedi eu derbyn a pham eu bod wedi gadael. Roedd rhai preswylwyr wedi marw ac roedd rhai eraill wedi cael eu symud i gael lefel uwch o ofal. Cynigiwyd gofal amgen i nifer o breswylwyr. Bu cynnydd mewn marwolaethau mewn cartref ac yn y gymuned yn sgil Covid.
- Cymunedau Cryf – Roedd gwirfoddolwyr yn y sir wedi bod yn gymorth mawr yn ystod pandemig Covid a chadarnhaodd swyddogion y byddant yn cysylltu â phob banc bwyd yn y sir i gael gwybod sut roedd y gwaith yn datblygu a’u hysbysu o grantiau Covid oedd ar gael. Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod gwaith y gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod anodd yma.
- Teithio llesol – roedd gordewdra yn fater parhaus. Roedd Iechyd y Cyhoedd yn arwain ar hyn, ond byddai’n ddull amlasiantaeth.
- Cyrhaeddwyd y targed o ostwng biliau ynni CO2 o 15%. Gofynnodd y Cynghorydd Graham Timms i gael gwybod faint o CO2 oedd yn cael ei gynhyrchu a chododd y mater o ail gategoreiddio gan Lywodraeth y DU. Gofynnodd y Cynghorydd Timms faint oedd y biliau ynni ar hyn o bryd. Cadarnhawyd y byddai’r wybodaeth yn cael ei gasglu a’i ddosbarthu.
- Rhoi llety i bobl ddigartref yn ystod Covid – gofynnodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler a fyddai hyn yn parhau ac a fyddent yn aros yn y llety. Cadarnhawyd y byddai’r cynllun llety i bobl ddigartref yn parhau ac y byddai pobl yn aros yn y llety a ddyrannwyd iddynt. Roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi cael cyllid i ddarparu llety argyfwng ac roedd angen defnyddio’r cyllid erbyn mis Mawrth 2021.
- Cafodd 179 o gartrefi gwag eu llenwi. Gofynnodd y Cynghorydd Kensler faint oedd yr amser cyfartaledd i’w llenwi. Cadarnhaodd swyddogion y byddant yn dod o hyd i’r wybodaeth ac yn ei ddosbarthu i aelodau.
- Dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams bod fferm wynt Clocaenog bellach wedi cael ei lansio ac roedd ar ddeall y byddai angen 20% o arian cyfatebol. Yn sgil yr arian cyfatebol, byddai hyn yn cyfyngu ar nifer y prosiectau. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi codi’r mater gyda’r Panel a bod y meini prawf ar waith ar gyfer prosiectau dros £10,000.
- Gofalu am goed – cadarnhawyd bod rhestr o goed oedd â Gorchymyn Diogelu Coed ar gael, ac os oedd coeden o dan Orchymyn Diogelu Coed, byddai angen cyflwyno cais i’w thorri i lawr i’r Pwyllgor cynllunio.
- Datblygu Cymuned y Rhyl – cadarnhaodd swyddogion eu bod yn trafod ag Ardal Gwella Busnes y Rhyl.

Rhoddodd yr aelodau deyrnged i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru a lwyddodd i barhau i gynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig.

CYNIGIODD y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones i gymeradwyo'r adroddiad, ac fe'i HEILIWYD gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler.

Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar unrhyw newidiadau cytunedig, bod y Cyngor yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2019-2020.*

**Ar y pwynt hwn (12.25 p.m.) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailymgynnull y cyfarfod am 12.40 p.m.**

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU CRAFFU'R CYNGOR 2019/2020

Cyflwynodd y Cynghorydd Graham Timms Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor 2019/20 (a gylchredwyd ymlaen llaw) ar eu gweithgareddau yn ystod 2019/20.

Ar y pwynt hwn, talodd y Cynghorydd Timms deyrnged i'r diweddar Gynghorydd Huw Jones a oedd wedi bod yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Craffu Perfformiad. Roedd wedi gwneud cyfraniad enfawr, nid yn unig i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ond i'r Cyngor cyfan a byddai colled fawr ar ei ôl.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol i gydymffurfio ag Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor a oedd yn nodi bod yn rhaid i Bwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn am eu gwaith gydag argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith at y dyfodol ac ar ddulliau gweithio diwygiedig os yw hynny'n briodol.

Cyflwynwyd ffurflenni ceisiadau craffu gan aelodau, swyddogion ac aelodau o'r cyhoedd, a'u rhoi i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu sy'n defnyddio'r meini prawf i benderfynu a yw eitem yn deilwng o sylw pwyllgor craffu.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu rôl bwysig y Pwyllgorau Craffu o ran cefnogi gwaith y Cyngor i ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys monitro darpariaeth y Cynllun yn rheolaidd.

Hefyd yn yr adroddiad blynyddol nodwyd gwybodaeth ar y grwpiau tasg a gorffen/gweithgorau sy'n gweithredu dan nawdd Pwyllgorau Craffu'r Cyngor.

Dim ond unwaith oedd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu y BGC wedi cyfarfod yn ffurfiol ac roedd yr ail gyfarfod wedi bod heb gworwm. Conwy oedd i Gadeirio'r Cyd-bwyllgor am ddwy flynedd ac yna byddai'r rôl yn cael ei throsglwyddo i Sir Ddinbych. Roedd trefnu cyfarfodydd wedi bod yn anodd.

Ar y pwynt hwn, diolchodd y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones i Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Cynghorydd Emrys Wynne am ei waith a'i gefnogaeth.

Bachodd y Cynghorydd Huw Irving ar y cyfle i nodi mai pleser a braint oedd bod yn Is-Gadeirydd i'r diweddar Huw Jones ar y Pwyllgor Craffu Perfformiad.

Mynegodd y Cynghorydd Timms ac Aelodau eraill eu diolch i'r Swyddog Craffu, Rhian Evans, am ei chefnogaeth a'i gwaith campus drwy gydol y flwyddyn.

CYNIGIODD y Cynghorydd Graham Timms y dylid cymeradwyo'r adroddiad, EILIWYD hyn gan y Cynghorydd Hugh Irving.

Cafwyd pleidlais ac fe gytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2019/20.*

**9 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU CRAFFU**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol, y Cynghorydd Richard Mainon, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r Cyngor i ystyried newidiadau mewn cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r gofynion statudol a bod yn ymwybodol o sut mae trefniadau cadeirio a thaliadau cydnabyddiaeth yn gweithio.

Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried adroddiad tebyg yn ei gyfarfod ar 2 Hydref a chaiff sylwadau perthnasol eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor llawn. Ymgynghorir â'r grwpiau gwleidyddol ar aelodaeth pwyllgorau a materion cydbwysedd gwleidyddol pryd bynnag y bydd materion yn codi, er enghraifft i lenwi swyddi gwag ar bwyllgorau.

CYNIGIWYD gan y Cynghorydd Richard Mainon i gymeradwyo'r adroddiad, EILIWYD gan y Cynghorydd Christine Marston.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn:*

(i) ail-benodi cadeirydd ac aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn 2020 / 2021 y Cyngor;
(ii) ystyried y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.

## 10 AMSERLEN Y PWYLLGORAU 2021

Cyflwynodd y Cynghorydd Richard Mainon, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i alluogi Aelodau i gymeradwyo amserlen ddrafft y Pwyllgorau ar gyfer 2021.

Fel arfer byddai’r amserlen ar gyfer y flwyddyn ganlynol wedi cael ei chymeradwyo’n gynt er mwyn cadw at amserlen 18 mis. Oedwyd hyn oherwydd pandemig coronafeirws COVID-19 a arweiniodd at ohirio cyfarfodydd y Cyngor.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2021 yn unol â phenderfyniad y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis er mwyn galluogi cadarnhau mannau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi’r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau.

Cafwyd trafodaeth a mynegodd y Cynghorydd Paul Penlington ei siom i nodi nad oedd dim cyfarfodydd min nos wedi eu trefnu. Gofynnodd hefyd pam nad oedd cyfarfodydd wedi eu trefnu yn ystod gwyliau’r ysgol.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod arolwg wedi ei chynnal gyda’r Cynghorwyr ar ddechrau eu tymor ac roedd y mwyafrif yn cytuno gydag amseroedd y cyfarfodydd.

Diolchodd y Cynghorydd Mainon i Kath Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau am baratoi’r amserlen a chysylltu gyda swyddogion gan fod angen trefnu’n ofalus iawn.

CYNIGIWYD gan y Cynghorydd Richard Mainon i gymeradwyo’r adroddiad, EILIWYD gan y Cynghorydd Alan James.

Cynhaliwyd pleidlais ac roedd y mwyafrif o aelodau o blaid yr adroddiad a phleidleisiodd un aelod yn erbyn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2021.*

## 11 RHYBUDD O GYNNIG

Rhybudd o Gynnig a gyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

‘Bod y Cyngor hwn yn cefnogi’r ddeiseb ganlynol wedi’i rhoi ar y wefan deisebau seneddol:

Ar gyfer y flwyddyn gyntaf mae’n rhaid i yrwyr ifanc fod wedi gosod blwch du yn eu car cyn y gallan nhw yrru. Ar ben hynny, dim ond un teithiwr y dylen nhw gario, a rhaid i’r unigolyn hynny fod yn yrrwr profiadol. Byddai’r newidiadau hyn yn lleihau’r cyfanswm o farwolaethau mewn damweiniau ffordd yn sylweddol ac yn annog pobl i yrru’n fwy diogel.’

Mynegodd pob aelod eu cefnogaeth i'r Rhybudd o Gynnig.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r Rhybudd o Gynnig.

**PENDERFYNWYD** bod y Cyngor hwn yn cefnogi'r ddeiseb ganlynol wedi'i rhoi ar y wefan deisebau seneddol:

Ar gyfer y flwyddyn gyntaf mae'n rhaid i yrwyr ifanc fod wedi gosod blwch du yn eu car cyn y gallan nhw yrru. Ar ben hynny, dim ond un teithiwr y dylen nhw gario, a rhaid i'r unigolyn hynny fod yn yrrwr profiadol. Byddai'r newidiadau hyn yn lleihau'r cyfanswm o farwolaethau mewn damweiniau ffordd yn sylweddol ac yn annog pobl i yrru'n fwy diogel.

## 12 RHYBUDD O GYNNIG

Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Paul Penlington i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Yn unol ag ymrwymiad yr awdurdod i amddiffyn ein hamgylchedd naturiol, o heddiw ymlaen, bydd holl ddatblygiadau adeiladu cynghorau yn ymgorffori priffyrdd draenogod ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod.

I'w gyflawni drwy; ddefnyddio gwrychoedd brodorol yn unig fel ffiniau lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, a defnyddio planhigion brodorol mewn unrhyw dirlunio. Bydd unrhyw ffiniau waliau solet neu ffensys angenrheidiol yn ymgorffori twneli draenogod ar lefel y ddaear.

Yn ogystal, bydd yr awdurdod yn annog datblygwyr preifat i fabwysiadu'r un arfer."

Yn dilyn trafodaethau, cytunwyd i gyfeirio'r Rhybudd o Gynnig at CCA.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gyfeirio'r Rhybudd o Gynnig at CCA.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor llawn yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig i'w gyflwyno i'r Grŵp Canllawiau Cynllunio Atodol.*

## 13 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Mark Young yr Hysbysiad o Gynnig canlynol ar ran y Grŵp Annibynnol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

Bod Cyngor Sir Ddinbych yn:

(i) cydnabod ymdrechion y cyngor i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a hyrwyddo ynni adnewyddadwy;

(ii) cydnabod hefyd:

- bod y costau rhedeg a sefydlu ariannol sylweddol sydd ynghlwm â gwerthu trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol i gwsmeriaid lleol yn golygu ei fod yn amhosibl i gynhyrchwyr trydan adnewyddadwy lleol wneud hynny,

- y byddai gwneud y costau ariannol hyn yn gymesur â graddfa gweithrediad y cyflenwr trydan adnewyddadwy yn galluogi ac yn annog busnesau lleol newydd, neu gynghorau, i ddarparu trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol yn uniongyrchol i gwsmeriaid lleol, ac
- y gellir defnyddio'r refeniw a dderbynnir gan ddarparwyr trydan adnewyddadwy lleol newydd i wella'r economi, gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn ogystal â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr lleol;

(iii) yn unol â hyn, penderfynu cefnogi'r Ddeddf Drydan Lleol, a gefnogir gan 187 o Aelodau Seneddol, a fyddai, os caiff ei wneud yn gyfraith, yn sefydlu Hawl i Gyflenwad Lleol a fyddai'n hyrwyddo cwmnïau a chydweithrediadau cyflenwi trydan adnewyddadwy lleol drwy wneud y costau rhedeg a sefydlu sydd ynghlwm â gwerthu trydan adnewyddadwy i gwsmeriaid lleol yn gymesur â maint gweithrediad y cyflenwad; a

(iv) phenderfynu hefyd i:

- roi gwybod i'r cyfryngau lleol am y penderfyniad hwn,
- ysgrifennu at Aelodau Seneddol lleol yn gofyn iddynt gefnogi'r Ddeddf, ac
- ysgrifennu at drefnwyr yr ymgyrch am y Ddeddf, Power for People, (8 Delancey Passage, Camden, London NW1 7NN neu info@powerforpeole.org.uk) yn mynegi ei gefnogaeth.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i gymeradwyo'r Rhybudd o Gynnig.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor llawn yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig -

(i) cydnabod ymdrechion y cyngor i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a hyrwyddo ynni adnewyddadwy;

(ii) cydnabod hefyd:

- bod y costau rhedeg a sefydlu ariannol sylweddol sydd ynghlwm â gwerthu trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol i gwsmeriaid lleol yn golygu ei fod yn amhosibl i gynhyrchwyr trydan adnewyddadwy lleol wneud hynny,
- y byddai gwneud y costau ariannol hyn yn gymesur â graddfa gweithrediad y cyflenwr trydan adnewyddadwy yn galluogi ac yn annog busnesau lleol newydd, neu gynghorau, i ddarparu trydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol yn uniongyrchol i gwsmeriaid lleol, ac
- y gellir defnyddio'r refeniw a dderbynnir gan ddarparwyr trydan adnewyddadwy lleol newydd i wella'r economi, gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn ogystal â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr lleol;

(iii) yn unol â hyn, penderfynu cefnogi'r Ddeddf Drydan Lleol, a gefnogir gan 187 o Aelodau Seneddol, a fyddai, os caiff ei wneud yn gyfraith, yn sefydlu Hawl i Gyflenwad Lleol a fyddai'n hyrwyddo cwmnïau a chydweithrediadau cyflenwi trydan adnewyddadwy lleol drwy wneud y costau rhedeg a sefydlu sydd ynghlwm â gwerthu trydan adnewyddadwy i gwsmeriaid lleol yn gymesur â maint gweithrediad y cyflenwad; a

(iv) phenderfynu hefyd i:

- roi gwybod i'r cyfryngau lleol am y penderfyniad hwn,
- ysgrifennu at Aelodau Seneddol lleol yn gofyn iddynt gefnogi'r Ddeddf, ac
- ysgrifennu at drefnwyr yr ymgyrch am y Ddeddf, Power for People, (8 Delancey Passage, Camden, London NW1 7NN neu info@powerforpeole.org.uk) yn mynegi ei gefnogaeth.

## 14 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd Raglen Waith Ymlaen y Cyngor (a gylchredwyd yn flaenorol).

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Ymlaen y Cyngor.*

**Daeth y Cyfarfod i ben am 1.50 p.m.**